# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Mawrth 2013** |
| Amser: | **09:19 - 10:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mick Antoniw (Cadeirydd)**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Mark Isherwood**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Gerard Elias QC, Comisiynydd Safonau** |
| Staff y Pwyllgor: | **Lara Date (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Owain Roberts (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.2 Fe wnaeth y Cadeirydd roi gwybod i'r Pwyllgor am ei gyfarfod diweddar gydag aelodau o Public Affairs Cymru.

## 2. Ystyried adroddiad drafft ar Lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol

2.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

2.2 Nododd y Comisiynydd nad oedd diffygion mawr yn y system bresennol ond bod angen rhyw ddull o gofnodi gweithgarwch lobïo.

2.3Trafododd y Pwyllgor y dewisiadau posibl o ran cofrestru gwybodaeth am weithgarwch lobïo. Cytunodd y Pwyllgor ar un o'r dewisiadau a gynigiwyd ac ar welliannau i'r canllawiau drafft ar lobïo a hygyrchedd i Aelodau.

2.4 Ystyriodd yr Aelodau'r rheolau drafft ar gyfer gweithredu'r Grwpiau Trawsbleidiol.

2.5 Caiff yr adroddiad drafft ei ddiwygio i gynnwys sylwadau'r Aelodau cyn i'r Cadeirydd ei gyfeirio at y Llywydd.

## 3. Ystyried adroddiad ar y Cod Ymddygiad gan y Comisiynydd

3.1 Cyflwynodd y Comisiynydd ei nodyn briffio.

3.2 Ystyriodd y Pwyllgor ffurf y Cod Ymddygiad mewn deddfwrfeydd eraill a chytunodd ar ei hoff ffurf ar gyfer Cod Ymddygiad newydd y Cynulliad. Mae'n cynnwys pedair adran er mwyn cynnwys egwyddorion  Nolan a nodi'r canlynol yn glir:- 1) ystod y methiannau i gydymffurfio sy'n bosibl; 2) y ddeddfwriaeth/Rheolau Sefydlog sy'n berthnasol; 3) unrhyw ganllawiau a gyflwynwyd; a 4) yr ystod o sancsiynau sydd ar gael yn wyneb methiant i gydymffurfio â nhw.

3.3 Rhoddodd y Pwyllgor ragor o ystyriaeth i fodel ar gyfer trefn sancsiynau diwygiedig. Cytunwyd y byddai'r sancsiynau yn cael eu diwygio fel mater o flaenoriaeth, ac y byddent yn cael eu cynnwys yn y Cod wrth lunio'r fersiwn derfynol. Cytunodd y Pwyllgor ag awgrym y Comisiynydd y dylai ef ymgynghori â holl Aelodau'r Cynulliad ar y drefn sancsiynau yr hoffai'r Pwyllgor ei gweld.

3.4 Caiff adroddiad ar ddiwygio'r drefn sancsiynau ei ddrafftio, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad y Comisiynydd, i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf ar 23 Ebrill.